# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 16 Ionawr 2018

Amser y cyfarfod: 13.30

# 111(v4)

## Cwestiwn Brys

Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid:

**Adam Price (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** Pa gynlluniau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u gwneud i ymateb i effeithiau diddymu Carillion? (EAQ0002)

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru

(45 munud)

**Dogfen Ategol**

Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru - Adroddiad Terfynol

## 4 Dadl: Cyllideb Derfynol 2018-19

(60 munud)

**NDM6614** Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 20.25, yn cymeradwyo'r Gyllideb Flynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018-19 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ar 19 Rhagfyr 2017.

Troednodyn:

Yn unol â darpariaethau perthnasol Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a Rheol Sefydlog 20.28, mae'r Gyllideb Flynyddol yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:

1. y datganiad ysgrifenedig sy'n ofynnol o dan adran 125(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006;

2. yr adnoddau y cytunodd y Trysorlys arnynt ar gyfer cyllideb bloc Cymru am y flwyddyn ariannol y mae'r cynnig yn ymwneud â hi;

3. cysoni rhwng yr adnoddau a ddyrannwyd i gyllideb bloc Cymru gan y Trysorlys a'r adnoddau i'w hawdurdodi i'w defnyddio yn y cynnig;

4. cysoni rhwng yr amcangyfrif o'r symiau i'w talu i Gronfa Gyfunol Cymru gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'r symiau i'w hawdurdodi ar gyfer talu allan o'r Gronfa yn y cynnig; a

5. cysoni rhwng yr adnoddau i'w hawdurdodi o dan adran 125(1)(a) a (b) o'r Ddeddf a'r symiau i'w hawdurdodi ar gyfer talu allan o Gronfa Gyfunol Cymru o dan adran 125(1)(c).

Darparwyd y wybodaeth atodol ganlynol i'r Aelodau:

- Nodyn Esboniadol ar y newidiadau rhwng cynigion y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Flynyddol.

**Dogfen Ategol**

Y Pwyllgor Cyllid – Adroddiad ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2018-19

## 5 Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2018

(15 munud)

**NDM6622** Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o'r Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2018 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 04/01/2018.

**Dogfen Ategol**

Memorandwm Esboniadol

Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## 6 Dadl: Setliad Llywodraeth Leol 2018-19

(60 munud)

**NDM6623** Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag Adran 84H o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, yn cymeradwyo Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 1) 2018-2019 (Setliad Terfynol - Cynghorau). Gosodwyd copi o'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Rhagfyr 2017.

## 7 Cyfnod Pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 17 Ionawr 2018

Eitem 1

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 11/01/2018 i'w hateb ar 16/01/2018

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

## Prif Weinidog

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

1 OAQ51560

A yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwahardd anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau yng Nghymru?

**Nick Ramsay** *Mynwy*

2 OAQ51581

A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y GIG yn Sir Fynwy?

**Hefin David** *Caerffili*

3 OAQ51576

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y gall byrddau iechyd ac awdurdodau lleol gydweithio i sicrhau eu bod yn gweithio mewn ffordd effeithiol a chydgysylltiedig?

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

4 OAQ51582 Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyfathrebu â phobl sy'n aros am wasanaeth band eang cyflym iawn?

**Bethan Jenkins** *Gorllewin De Cymru*

5 OAQ51579

A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu sut y gall Llywodraeth Cymru wella sicrwydd ariannol ar gyfer pobl yng Nghymru?

**Leanne Wood** *Rhondda*

6 OAQ51571

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddefnyddio gorchmynion gwarchod mannau cyhoeddus yng Nghymru?

**Mohammad Asghar** *Dwyrain De Cymru*

7 OAQ51558

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod digon o dir ar gael i awdurdodau lleol yng Nghymru i ateb y galw ar gyfer datblygiadau tai newydd?

**Dawn Bowden** *Merthyr Tudful a Rhymni*

8 OAQ51549

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am raglen fuddsoddi Ysgolion yr 21ain Ganrif ym Merthyr Tudful a Rhymni?

**Dai Lloyd** *Gorllewin De Cymru*

**9** OAQ51580

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau canolfannau dydd ar gyfer yr henoed yng Nghymru?

**Mark Reckless** *Dwyrain De Cymru*

**10** OAQ51573

A wnaiff y Prif Weinidog gadarnhau pa gyfran o'r arian cyfalaf sydd ar gael i Lywodraeth Cymru a gaiff ei ymrwymo i ffordd liniaru'r M4?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

**11** OAQ51559 Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau yng Nghymru?

**Suzy Davies** *Gorllewin De Cymru*

**12** OAQ51577

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd mewn perthynas ag amcanion y Cynllun ar gyfer Ataliad y Galon y Tu Allan i'r Ysbyty gan Lywodraeth Cymru?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

**13** OAQ51541

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau yng nghanolbarth Cymru?

**Angela Burns** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

**14** OAQ51553

A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i adolygu trefniadau uwchgyfeirio ac ymyrryd GIG Cymru?

**Neil Hamilton** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

**15** OAQ51578

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am hygyrchedd gwasanaethau bysiau yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru?

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac maent i'w gweld ar [dudalen y Cyfarfod Llawn]**

---

**Dydd Mawrth 23 Ionawr 2018**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Hynt y gwaith ar y Gronfa Triniaeth Newydd (45 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth: Trafnidiaeth Cymru (45 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig: Y Diwydiant Bwyd a Diod (45 munud)
- Y Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Gweinyddu) (Cymru) 2018 (15 munud)
- Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2018 (15 munud)
- Dadl: Adolygiad Thurley o Amgueddfa Cymru (60 munud)

**Dydd Mercher 24 Ionawr 2018**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid (45 munud)
- Cwestiynau i Arweinydd y Tŷ (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (30 munud)
- Cwestiynau Amserol (20 munud)
- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Ymchwiliad i'r amcangyfrifon ariannol sy'n mynd gyda deddfwriaeth (60 munud)
- Dadl ar adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau: Bargeinion Dinesig ac Economïau Rhanbarthol Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl Fer – Siân Gwenllian (Arfon) (30 munud)

**Dydd Mawrth 30 Ionawr 2018**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Arweinydd y Tŷ: Cyflymu Cymru (45 munud)
- Cynnig i drafod y ddwy eitem ganlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân (15 munud)
    - Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2018
    - Rheoliadau Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 (Diwygio Atodlen 5) 2018
- Cynnig i drafod y ddwy eitem ganlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân (45 munud)
    - Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) 2018
    - Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) 2018
    - Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Swm Penodedig o Rent Perthnasol) (Cymru) 2018

**Dydd Mercher 31 Ionawr 2018**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg (45 munud)
- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau Amserol (20 munud)
- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar Fynediad at Drafnidiaeth Gyhoeddus ar gyfer Pobl Anabl (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Iechyd Meddwl Amenedigol yng Nghymru (60 munud)
- Dadl Fer – Suzy Davies (Gorllewin De Cymru) (30 munud)

**Dydd Mawrth 6 Chwefror 2018**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad: Mynd i'r Afael â Chysgu ar y Stryd a Digartrefedd (45 munud)

**Dydd Mercher 7 Chwefror 2018**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth (45 munud)

- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau Amserol (20 munud)
- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod (30 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (60 munud)
- Dadl Fer – Caroline Jones (Gorllewin De Cymru) (30 munud)